ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ffeithiau allweddol:
## Amrywiaeth ethnig mewn ysgolion

Holl ddata fel ag yr oedd yn 2019 o ystadegau Cyngor y Gweithlu Addysg a'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

## Dysgwyr

**Roedd 12% o'r holl ddysgwyr pump oed ac yn hŷn yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.**

Mae cryn dipyn o amrywiaeth rhanbarthol, o 34.4% yn ysgolion Caerdydd i 4.1% yn ysgolion Ynys Môn. Er gwaethaf yr amrywiaeth rhanbarthol hwn, gellir gweld amrywiaeth ethnig ymysg dysgwyr ym mhob rhan o Gymru:

mae **11% o'r holl ddysgwyr cynradd** a **12% o'r holl ddysgwyr uwchradd** yn dod o gefndiroedd Duon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME).

> "Mae disgyblion BAME Cymru yn dod yn fwy gwasgaredig yn ddaearyddol."

## Athrawon ysgol

**Roedd 3% o'r 35,545 o athrawon ar y gofrestr yng Nghymru yn dweud eu bod yn dod o grŵp ethnig arall; sef 1,066 o athrawon.**

O'r rhain, roedd **62** yn dweud eu bod o gefndir Du neu Ddu Prydeinig, **159** o gefndir Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, a **176** o gefndir Cymysg. Nid yr awdurdodau sydd â'r nifer uchaf o ddysgwyr o gefndiroedd ethnig heb fod yn wyn yw'r rhai â'r nifer uchaf o athrawon heb fod yn wyn. Mae athrawon ar draws Cymru yn llai amrywiol yn ethnig na'r dysgwyr maent yn eu haddysgu. Ceir mwy o amrywiaeth ethnig ymysg **gweithwyr cymorth dysgu ysgolion** nag ymysg athrawon ysgol.

**48 o ddysgwyr BAME wnaeth gofrestru ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon yn 2019/20, sy'n sylweddol is na rhaglenni prifysgol eraill. Hefyd, o'r 1,165 o athrawon newydd gymhwyso, 6 oedd yn dweud eu bod yn dod o gefndir Cymysg, 13 o gefndir Asiaidd, 4 o gefndir Du a 6 o grwpiau ethnig eraill.**

## Arweinwyr ysgolion

Ymysg penaethiaid, dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol, **15** o unigolion o gefndiroedd ethnig heb fod yn wyn oedd i'w gweld ar y gofrestr.

**7 (allan o gyfanswm o 3,443) o'r penaethiaid neu benaethiaid gweithredol presennol oedd yn dod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig heb fod yn wyn, ac nid oedd unrhyw un ohonynt yn Ddu nac yn Ddu Prydeinig.**

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y daflen ffeithiau hon.

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41420